# Adolygiad o ddosbarthau et B h _

## 1 Cefndir yr Adolygiad

**Dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a 2013, mae dyletswydd ar y Cyngor i rannu ei ardal yn ddosbarthiadau etholiadol a dynodi man pleidleisio ar gyfer pob dosbarth. Mae hefyd yn rhaid iddo barhau i adolygu'r trefniadau hyn. Gosododd Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006 ddyletswydd ar bob awdurdod lleol ym Mhrydain i adolygu eu dosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio.**

## 2 Diffiniadau

**Mae dosbarth etholiadol yn ardal ddaearyddol a grëwyd drwy isrannu ardal etholiadol, h.y. etholaeth, ward ardal neu ei rannu'n rhannau llai. Mae man pleidleisio yn adeilad neu ardal lle bydd gorsafoedd pleidleisio yn cael eu lleoli. Gorsaf bleidleisio yw'r ystafell neu'r ardal o fewn y man pleidleisio lle mae pleidleisio'n digwydd.**

## 3 Sut mae'r adolygiad yn cael ei gynnal

**Cynhelir yr adolygiad rhwng 9fed o Hydref 2024 ar 1af o Chwefror 2025.**

**Ymgynghorir â'r Swyddog Canlyniadau Dros Dro ar y trefniadau presennol, a bydd yn gwneud sylwadau ar y gorsafoedd pleidleisio a ddefnyddir ar hyn o bryd. Cyhoeddir ei sylwadau fel rhan o'r broses adolygu.**

**Gwahoddir Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol, Cynghorau Cymuned, pleidiau gwleidyddol lleol, preswylwyr a phobl sydd ag arbenigedd penodol mewn perthynas â mynediad i eiddo i gyflwyno eu sylwadau.**

## 4 Beth sydd ddim yn rhan o'r adolygiad

**Ffiniau etholaethau seneddol, wards etholiadol a wardiau Cynghorau Tref / Cymuned yn Blaenau Gwent.**

## 5 Amserlen yr Adolygiad

| | |
|---|---|
| **Cyhoeddi Hysbysiad/Cychwyn Adolygiad** | **28 Hydref 2024** |
| **Ymgynghoriad – Sylwadau i'w derbyn gan** | **22 Tachwedd 2024** |
| **Cyhoeddi sylwadau Swyddogion Canlyniadau Gwasanaethau Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau Dros Dro** | **27 Tachwedd 2024** |
| **Cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor** | **23 Ionawr 2025** |
| **Trefniadau diwygiedig yn dod i rym** | **1 Chwefror 2025** |

## 6 Nod yr Adolygiad

**Mae'r ddogfen atodedig yn nodi manylion yr ardaloedd pleidleisio presennol a'r mannau pleidleisio ym Blaenau Gwent. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi cydweithrediad y mannau pleidleisio sy'n darparu eu hadeiladau am y diwrnod er mwyn i etholwyr gael lle cyfleus i bleidleisio.**

**Nod yr Adolygiad yw mynd i'r afael â materion sydd wedi codi, naill ai'n sgil cau adeiladau / y bwriad i gau adeiladau neu faterion a gododd yn ystod etholiadau diweddar a bydd hefyd yn cael ei hysbysu gan adborth staff gorsafoedd pleidleisio ac arolygwyr.**

## 7 Gwneud Sylwadau

**Wrth wneud sylwadau, lle mae'r awgrym yn ymwneud â newid man pleidleisio, rydym yn eich annog i roi'r rhesymau dros hyn, ac awgrymu mannau pleidleisio eraill er mwyn caniatáu ymgynghori pellach Yn yr un modd, rydym hefyd yn croesawu cefnogaeth i'r trefniadau presennol.**

**Gellir cyflwyno argymhellion ar bapur i Adolygiad Pleidleisio, Cofrestru Etholiadol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Y Swyddfeydd Cyffredionl, Heol Gwaith Dur, Glyn Ebwy NP23 6DN neu mewn e-bost electoralservices@blaenau-gwent.gov.uk**